Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Hawliau Plant yng Nghymru

## 'Canllaw Sut i Wneud' i Ddatblygu Strategaethau Cyfranogiad

**llyw.cymru**



Hawliau Plant
Cymru

Children's Rights
Wales

# Cynnwys


Gwybodaeth am y Canllaw hwn 1

Beth yw Strategaeth Cyfranogiad? 1

Pam datblygu Strategaeth? 2

Pwy ddylai gymryd rhan? 2

Cam 1: Deall Cyfranogiad 3

Cam 2: Mapio Partneriaid ac Arferion Presennol 4

Cam 3: Modelau a Lefelau Cyfranogiad 6

Cam 4: Gosod Nodau, Amcanion a Mesur Cynnydd 7

Cam 5: Drafftio'r Strategaeth 8

Cam 6: Ymgynghori ar y Drafft 9

Cam 7: Codi Ymwybyddiaeth 9

Cam 8: Cynllunio a Gweithredu 10

Cam 9: Adolygu'r Strategaeth 10

Angen cymorth? 12

Adnoddau 13

Atodiad A 13

Rhestr Wirio Datblygu Strategaethau Cyfranogiad 13

Diagram o'r Broses Grynhoi 14



OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54038, ISBN digidol 978-1-83745-445-7

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Gwybodaeth am y Canllaw hwn

**Rydym am i Gymru fod yn wlad lle mae pob plentyn yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi, ei barchu a'i glywed. Ein huchelgais yw i Gymru fod yn lle gwych i gael eich magu, i fyw ac i weithio, nawr ac yn y dyfodol.**

**Bydd y canllaw hwn yn eich tywys drwy broses gam wrth gam i ddatblygu a gweithredu strategaeth cyfranogiad sy'n cyd-fynd â Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Cymru. Mae hefyd yn helpu i gyflawni dyletswyddau statudol i gynnwys plant yn y broses o wneud penderfyniadau[1].**

## Beth yw Strategaeth Cyfranogiad?

Cynllun hirdymor yw strategaeth gyfranogiad ar gyfer sut bydd eich sefydliad yn cynnwys plant yn y broses o wneud penderfyniadau. Dylai adlewyrchu gwerthoedd a nodau eich sefydliad, dylai gael ei llunio gyda phlant, a dylai gynnwys camau gweithredu, cyfrifoldebau a ffyrdd clir o fesur cynnydd.

## Pam datblygu Strategaeth?

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yw sail ein holl waith gyda phlant ac ar gyfer plant. Mae Erthygl 12 CCUHP yn dweud bod gan blant yr hawl i fod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae Erthygl 12 yn darparu porth i gael gafael ar weddill eu hawliau CCUHP.

Mae strategaeth yn helpu i wreiddio'r egwyddor o gymryd rhan yn yr arferion bob dydd yn eich sefydliad.

Gall datblygu strategaeth ddarparu lle i fynegi manteision cyfranogiad. Gall hyn fod i blant a allai fod yn datblygu sgiliau datrys problemau a chyfathrebu ac yn dylanwadu ar y math o wasanaethau a'u lleoliad. I'ch sefydliad chi a allai fanteisio ar ddatblygu gwell cysylltiadau yn y gymuned neu dargedu'n well, mynediad at wasanaethau lleol a'r defnydd ohonynt. I'r gymuned a allai fanteisio ar ddatblygu plant fel cyfranogwyr gweithredol yn y broses ddemocrataidd, a mwy o gydnabyddiaeth o bwysigrwydd materion sy'n ymwneud â phlant.

'Y Ffordd Iawn' – fframwaith ymarferol yw hwn, sydd â phum egwyddor allweddol i'ch helpu i fabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau plant yn eich gwaith:

- Gwreiddio hawliau plant
- Cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu
- Grymuso plant
- Cyfranogiad
- Atebolrwydd

1 Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011; Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ALNET); Deddf Cydraddoldeb 2010; Deddf Cwricwlwm ac Asesu Cymru 2021

## Pwy ddylai gymryd rhan?

Dylid datblygu strategaethau cyfranogiad ar y cyd. Dylai partneriaid, y tu mewn a'r tu allan i'ch sefydliad, gan gynnwys plant, gymryd rhan o'r cychwyn cyntaf. Dylid nodi'r partneriaid yn gynnar, gydag ymgysylltu wedi'i deilwra i'w hanghenion cyfathrebu a gwahanol gamau'r broses i sicrhau mewnbwn ystyrlon.

Ar ôl cwblhau'r strategaethau, dylid eu cyfleu'n glir i'r holl bartneriaid mewn ffyrdd hygyrch a chynhwysol.



# Cam 1:

## Deall Cyfranogiad

**Mae cyd-ddealltwriaeth o gyfranogiad yn hanfodol i arwain eich strategaeth. Meddyliwch am ddatblygu diffiniad ar y cyd â phlant.**

*Mae cyfranogiad yn golygu gwrando ar blant ac ystyried eu barn yn ystyrlon.*

*Mae cymryd rhan yn golygu bod gen i hawl i fod yn rhan o wneud penderfyniadau, cynllunio ac adolygu cam gweithredu a allai effeithio arnaf i. "Bod â llais, bod â dewis".*

- Sut byddwch chi'n sicrhau bod y diffiniad hwn yn cael ei ddeall a'i gefnogi ar draws eich sefydliad?

## Astudiaeth achos

**Mae gan Eurochild Fforymau Eurochild Cenedlaethol mewn gwahanol wledydd ledled Ewrop. Bob blwyddyn, mae'r grwpiau hyn yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad. Yn 2025, bu'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar gyfranogiad plant.**

Y nod oedd sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed a'u bod yn gallu helpu i lunio prosesau gwneud penderfyniadau ar lefel Ewropeaidd ac ar lefel genedlaethol. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys gweithgareddau i ganfod:

- Beth mae cyfranogiad yn ei olygu i blant
- Pam mae cyfranogiad yn bwysig iddyn nhw
- Beth yw'r rhwystrau rhag cyfranogiad, a
- Syniadau ar sut i wella cyfranogiad.

Roedd gwahanol sefydliadau ledled Ewrop wedi cymryd rhan yn yr un ymgynghoriad. Roedd hyn yn ei gwneud yn bosibl cymharu a dysgu o'r canlyniadau ar draws amrywiaeth o wledydd.

Yng Nghymru, arweiniodd Cymru Ifanc ymgynghoriadau yng Nghonwy a Chaerdydd gan weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid yn y trydydd sector.

Cafodd canfyddiadau pob Fforwm Cenedlaethol eu dwyn ynghyd mewn adroddiad a lansiwyd yng nghynhadledd Eurochild yng Nghyprus ym mis Mehefin 2026.

# Cam 2:
## Mapio Partneriaid ac Arferion Presennol

**Mae mapio'n helpu i nodi eich partneriaid ac asesu'r gweithgarwch cyfranogiad presennol. Bydd gan wahanol bartneriaid ddiddordeb mewn gwahanol rannau o'r strategaeth – dylech feddwl am y ffordd orau o gyfathrebu â nhw.**

Mae'n bosibl y bydd gan eich sefydliad ddyletswyddau statudol i ymgymryd â gweithgareddau cyfranogiad ac ymgysylltu. Ceisiwch nodi'r rhain ac ystyried sut mae'r dyletswyddau'n cael eu cyflawni

Bydd gan eich sefydliad amrywiaeth o ddulliau cyfranogiad. Ceisiwch ddeall sut mae cyfranogiad yn gweithio i wahanol grwpiau oedran – babanod, plant a phobl ifanc. Defnyddiwch ddulliau ymgysylltu, data a dogfennau strategaeth fel arolygon, cyfweliadau neu weithdai i gasglu gwybodaeth a nodi bylchau.

- Pwy yw eich partneriaid mewnol ac allanol yn eich strategaeth?
- Pa weithgarwch cyfranogiad sydd eisoes yn digwydd yn eich sefydliad?
- Sut ydych chi'n dangos tystiolaeth bod eich dyletswyddau statudol yn cael eu cyflawni?
- Pa fylchau neu feysydd i'w gwella ydych chi wedi'u nodi?
- Pa ddulliau y byddwch chi'n eu defnyddio i gasglu'r wybodaeth hon?



# Astudiaeth achos

**Mae Cyfarwyddiaeth Plant a Theuluoedd Cyngor Torfaen yn cefnogi plant a phobl ifanc drwy eu timau addysg a gofal cymdeithasol. Roeddent am gael ffordd gyson o fesur yr effaith y mae lleisiau plant a phobl ifanc yn ei chael ar gynllunio a darparu gwasanaethau.**

Defnyddiodd Torfaen adnodd 'Y Ffordd Iawn – Hunanasesiad' Comisiynydd Plant Cymru i helpu i fapio eu dull gweithredu. Mae'r fframwaith hwn, sy'n seiliedig ar CCUHP, yn helpu cyrff cyhoeddus i wreiddio hawliau plant mewn penderfyniadau, polisïau ac arferion.

Wrth gwblhau'r hunanasesiad, gofynnwyd i dimau sgorio eu gwaith yn erbyn pum egwyddor Y Ffordd Iawn gan ddefnyddio system goleuadau traffig. Yna, gofynnwyd i dimau nodi meysydd i'w datblygu a'u gwella yn eu Cynllun Tîm.

Drwy ddefnyddio'r adnodd ar draws y Gyfarwyddiaeth, roedd hyn yn galluogi dull cyson ac yn nodi gweithgareddau ym mhob Cynllun Tîm lle ceisiwyd barn plant ac olrhain yr effaith ar ddarparu gwasanaethau.

Roedd pob tîm yn adrodd drwy eu Timau Arwain i'r Swyddog Gwerthuso a Gwella, a oedd yn sicrhau cysondeb drwy fonitro gweithrediad y cynlluniau.

Roedd yr adnodd wedi eu helpu i wella sut roeddent yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc, gan gynnwys:

- cysylltu'r cynllun strategol â hawliau plant (Gwreiddio)
- darparu gwybodaeth i blant mewn iaith hawdd ei deall (Grymuso)
- rhoi cyfleoedd i blant wneud newidiadau a dylanwadu ar eu gwaith (Cyfranogiad) bod yn atebol i blant a phobl ifanc (Atebolrwydd)



# Cam 3:
# Modelau a Lefelau Cyfranogiad

**Mae modelau cyfranogiad yn helpu i asesu arferion presennol a gosod dyheadau. Edrychwch ar wahanol fodelau cyfranogiad ac ystyriwch pa un sy'n fwy priodol i'ch sefydliad chi.**

Mae'n bwysig cydnabod yr amrywiaeth o arferion cyfranogiad ledled Cymru, a chydnabod bod gwahanol sefydliadau ar wahanol gamau ac y bydd ganddynt nodau ac amcanion gwahanol.

Mae'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad yn darparu meincnod ar gyfer mesur cynnydd. Dyma'r safonau:

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwybodaeth | Eich dewis chi | Dim gwahaniaethu | Parch | Cael rhywbeth allan ohono | Adborth | Gwella sut rydym yn gweithio |

- Pa fodelau cyfranogiad sy'n gweddu orau i'ch sefydliad chi, a pham?

## Astudiaeth achos

**Sefydlodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru Gyngor Ieuenctid Cenedlaethol i roi llais ystyrlon i bobl ifanc yn y byd pêl-droed. Roedd arnynt angen ffordd glir a chyson o gynnwys pobl ifanc yn briodol, a sicrhau bod eu barn yn llywio penderfyniadau ar draws y sefydliad.**

Gweithiodd Plant yng Nghymru (CIW) gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru gan ddefnyddio Model Ymgysylltu â Phobl Ifanc Gwirfoddolwyr Ifanc CIW, yn seiliedig ar Fodel Cyfranogiad Lundy. Mae Model Lundy yn seiliedig ar bedwar maes allweddol: lle, llais, cynulleidfa a dylanwad. Fe wnaeth hyn ein helpu i wneud yn siŵr bod gan bobl ifanc lefydd diogel i rannu eu barn, bod eu lleisiau'n cael eu clywed gan y bobl iawn a bod eu syniadau'n arwain at newid. Ynghyd â Chymdeithas Bêl-droed Cymru, rydym yn rhoi'r egwyddorion hyn ar waith drwy hyfforddiant, cymorth a chydweithio parhaus.

Roedd y prosiect wedi helpu Cymdeithas Bêl-droed Cymru i feithrin perthnasoedd cryfach a mwy cynhwysol gyda phobl ifanc, a rhoddodd gyfleoedd go iawn iddynt siapio sut mae pêl-droed yn cael ei ddatblygu.

Drwy gymhwyso fframwaith Lundy i'n harferion ein hunain, dysgodd CIW sut y gall strwythurau clir a gwerthoedd a rennir droi cyfranogiad ieuenctid yn rhywbeth sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a pharhaol.

# Cam 4:

## Gosod Nodau, Amcanion a Mesur Cynnydd

**Drwy fod yn glir ynghylch beth rydych chi am ei gyflawni, bydd hyn yn eich helpu i ddatblygu strategaeth effeithiol.**

Bydd nodau clir yn gosod eich gweledigaeth eang yn y tymor hir. Bydd amcanion yn rhannu eich nod yn rhannau cyraeddadwy. Dylech geisio gwneud eich amcanion yn rhai CAMPUS fel y gallwch fesur eich cynnydd.

| | |
|---|---|
| **Cyraeddadwy** | A yw'n realistig ac yn gyraeddadwy? |
| **Amserol** | Pryd bydd yn cael ei gyflawni? |
| **Mesuradwy** | Sut byddwch chi'n gwybod pryd y bydd yn cael ei gyflawni? |
| **Penodol** | Beth yn union ydych chi am ei gyflawni? |
| **Uchelgeisiol a Synhwyrol** | A yw'n cyd-fynd â nodau ehangach? |

Mae llawer o weithgareddau y gellir eu defnyddio i sefydlu beth sydd angen ei newid a pham, ac i ystyried sut rydych chi am wneud hyn. Gan weithio gydag eraill, defnyddiwch adnoddau fel SWOT i asesu eich cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau wrth weithredu cyfranogiad i helpu i lywio cynnydd yn y dyfodol.

- Beth yw eich nodau lefel uchel?
- Pa amcanion CAMPUS fydd yn eich helpu i gyflawni eich nodau?
- Sut byddwch chi'n mesur cynnydd ac yn casglu adborth?
- Pa rwystrau y byddwch o bosibl yn eu hwynebu, a sut byddwch chi'n eu goresgyn?



# Cam 5:
## Drafftio'r Strategaeth

**Dewch â'ch canfyddiadau at ei gilydd mewn strategaeth glir y gellir gweithredu arni.**

### Ydych chi wedi cynnwys y canlynol?

- ☑ eich llinell sylfaen (beth rydych chi'n ei wneud yn dda a sut gallech chi wella),
- ☑ barn partneriaid,
- ☑ nodau ac amcanion,
- ☑ rhesymeg dros eich cynigion,
- ☑ modelau cyfranogiad o'ch dewis,
- ☑ cynlluniau ar gyfer monitro ac adolygu.

- Oes angen i chi ddatblygu canllawiau polisi manylach ar gyfer staff yn ystod y cam hwn?
- A ddylech chi greu fersiwn i blant hefyd?

## Astudiaeth achos

**Cafodd Strategaeth Ymgysylltu â Phobl Ifanc Cyngor Powys ei llunio i helpu adrannau ar draws y Cyngor i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed yn eu prosesau gwneud penderfyniadau.**

Bu staff o wahanol adrannau gan gynnwys yr adran Gyfathrebu, Gwasanaethau Plant, y Tîm Comisiynu a'r Gwasanaeth Ieuenctid yn gweithio gyda'i gilydd i ysgrifennu'r Strategaeth. Roedd y dull cydweithredol hwn yn helpu i wneud y Strategaeth yn hawdd ei defnyddio i staff, gan gynnwys y rheini nad oedd wedi bod yn ymwneud â gwaith cyfranogi o'r blaen.

Ar ôl cwblhau'r drafft, cynhaliwyd ymgynghoriad ledled y sir gyda phobl ifanc. Ar ôl i'r bobl ifanc roi eu barn am y Strategaeth, arweiniodd hyn at newidiadau i'r cynllun, i'r neges gyffredinol ac i'r broses o lunio poster un dudalen sy'n addas i bawb fel adnodd canllaw cyflym.

Dangosodd y dull gweithredu cydgysylltiedig hwn sut y gall gwahanol rannau o'r cyngor weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu clywed ac yn cael eu cynnwys yn y gwaith o lunio gwasanaethau a phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Dywedodd Poppy, 16 oed:

*"os byddwch chi'n parhau i wrando ar bobl ifanc Powys, gallwch chi barhau i wneud ein bywydau ni'n fwy cyfforddus, a bydd y posibilrwydd o aros ym Mhowys yn llawer mwy pleserus i bobl ifanc heddiw."*

# Cam 6:

## Ymgynghori ar y Drafft

**Mae ymgynghoriad yn sicrhau bod eich strategaeth yn wybodus ac yn gynhwysol.**

Ewch ati i ymgysylltu â phlant, staff a phartneriaid, gan nodi'r ffordd orau o ymgysylltu â gwahanol gynulleidfaoedd. Gall hyn gynnwys cyhoeddi strategaeth ddrafft ar gyfer adborth ysgrifenedig neu gynnal sesiynau trafod. Dylai eich strategaeth gael ei diweddaru i adlewyrchu adborth cyn i fersiwn derfynol gael ei chreu i'w chymeradwyo gan eich tîm rheoli.

- Gyda phwy y mae angen i chi ymgynghori yn fewnol ac yn allanol?
- Sut byddwch chi'n sicrhau hygyrchedd eich ymgynghoriad?
- Sut byddwch chi'n ymateb i adborth ac yn diweddaru eich strategaeth?

# Cam 7:

## Codi Ymwybyddiaeth

**Mae ymwybyddiaeth a chefnogaeth yn hanfodol er mwyn gweithredu'n llwyddiannus.**

Ewch ati i hyrwyddo'r strategaeth ar draws eich sefydliad a meithrin cefnogaeth drwy gyfathrebu ac ymgysylltu drwy gydol y broses.

- Ble byddwch chi'n cyhoeddi eich strategaeth, a sut byddwch chi'n ei hyrwyddo?
- Pa gyfleoedd sydd ar gael i gyflwyno a thrafod y strategaeth gyda staff?
- Sut byddwch chi'n meithrin cefnogaeth ar draws y sefydliad?



# Cam 8: Cynllunio a Gweithredu

**Mae cynllun gweithredu yn rhoi strategaeth ar waith.**

Mae'n helpu i bennu blaenoriaethau, neilltuo cyfrifoldebau, a monitro cynnydd. Mae cynllun gweithredu yn cael ei lunio'n bennaf ar gyfer y rheini yn y sefydliad. Fodd bynnag, gellir rhannu unrhyw gynnydd yn ehangach; er enghraifft, gyda phartneriaid lleol, fel mudiadau gwirfoddol neu Fforymau Ieuenctid.

- Beth yw eich blaenoriaethau a'ch amserlenni?
- Pwy sy'n gyfrifol am bob dull gweithredu?
- A yw eich dulliau gweithredu yn cefnogi'r gwaith o gyflawni eich amcanion CAMPUS?

# Cam 9: Adolygu'r Strategaeth

**Drwy adolygu eich strategaeth, mae hyn yn helpu i asesu effaith a chynllunio gwelliannau ar gyfer y dyfodol.**

Defnyddiwch ddata ac adborth newydd i lywio diweddariadau, a sicrhau bod eich strategaeth yn dal yn berthnasol i gynlluniau a strategaethau ehangach eich sefydliad.

- Pryd a sut byddwch chi'n adolygu'r strategaeth?
- Pa ddata neu dystiolaeth newydd allai ddylanwadu ar unrhyw newidiadau?
- Sut byddwch chi'n asesu cynnydd yn erbyn eich nodau a'ch amcanion?
- Sut byddwch chi'n rhannu cynnydd â'r holl bartneriaid?



Gallai'r enghraifft ganlynol eich helpu i feddwl am sut i werthuso cynnydd yn erbyn eich amcanion

| Amcan – galluogi o leiaf 8 o blant i gymryd rhan yn y gwaith o fonitro a gwerthuso gwaith eich sefydliad | | |
|---|---|---|
| **Mewnbynnau**<br>Beth fydd yn cael ei gynnwys? | • Cyllid<br>• Adnoddau<br>• Amser y staff<br>• Amser y gwirfoddolwyr | • Wnaethoch chi ddefnyddio'r adnoddau yr oeddech yn disgwyl eu defnyddio? Os na, pam ddim?<br>• Wnaethoch chi gadw at y gyllideb? Os na, pam ddim?<br>• Wnaethoch chi gyflawni ar amser? Os na, pam ddim? |
| **Camau gweithredu**<br>Beth sydd angen ei wneud/beth sy'n cael ei wneud? | • Recriwtio o leiaf 8 o blant<br>• Darparu hyfforddiant | • Wnaethoch chi gyrraedd eich targed o ran recriwtio? Sut gwnaethoch chi hynny? Beth oedd y trafferthion? Beth allech chi wedi ei wneud yn wahanol?<br>• A gyflwynwyd yr hyfforddiant yn ôl y bwriad? Oedd yr amlder a'r cynnwys yn gywir? Faint o bresenoldeb gawsoch chi?<br>• Pa adborth gawsoch chi ar yr hyfforddiant? Beth ellir ei ddysgu ohono? |
| **Allbynnau**<br>Canlyniadau'r dulliau gweithredu | • Nifer y plant a gafodd hyfforddiant | • Oeddech chi wedi cyrraedd eich targed ar gyfer y niferoedd a aeth i'r hyfforddiant? |
| **Canlyniadau**<br>Pa newidiadau sydd wedi'u hachosi gan y dulliau gweithredu? | • Newidiadau mewn arferion sefydliadol<br>• Plant yn cyfrannu'n weithredol at wneud penderfyniadau a chynllunio sefydliadol | • Pa newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i arferion Sefydliadol? A oedd y rhain yn fwriadol/anfwriadol? Cadarnhaol neu negyddol? Sut mae'r sefydliad wedi derbyn y newidiadau? A ddylai'r rhain barhau?<br>• Pryd mae plant wedi cymryd rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau a chynllunio?<br>• A fydd plant yn cael eu cynnwys yn y dyfodol? Ym mha ffordd? Beth yw'r rhwystrau? Pa systemau sydd eu hangen i gynnal eu cyfranogiad? |
| **Effaith**<br>Effeithiau ehangach, tymor hwy | • Plant yn cyfranogi'n llawn yn y broses o wneud penderfyniadau fel mater o drefn | • A yw eich gwaith wedi cael effaith ehangach? A yw sefydliadau eraill wedi dilyn eich dull gweithredu? Beth allai'r effeithiau tymor hwy fod? |

# Astudiaeth achos

**Nod Adolygiad Cyfranogiad Caerdydd oedd deall sut mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn y gwaith o ffurfio eu dinas. Y nod oedd canfod beth sy'n gweithio'n dda, nodi bylchau, a gwneud yn siŵr bod llais pob person ifanc yn cael ei glywed, ei barchu a'i weithredu.**

Roedd yr adolygiad yn cynnwys 46 o bobl o 29 o sefydliadau ar draws y sectorau addysg, gwaith ieuenctid, iechyd, chwarae a chymunedol. Bu'n edrych ar sut mae'r sefydliadau hyn yn gwrando ar bobl ifanc, gan gynnwys grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, ac yn rhoi adborth ar sut mae eu syniadau'n dylanwadu ar benderfyniadau.

Canfu'r adolygiad gyfoeth o arferion cadarnhaol, ond hefyd rhai heriau allweddol — gan gynnwys ymwybyddiaeth gyfyngedig o Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Cymru a mecanweithiau adborth anghyson. O'r adolygiad hwn, datblygwyd chwe argymhelliad:

1. Codi ymwybyddiaeth o'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol.
2. Cefnogi sefydliadau i fabwysiadu polisïau clir yn ymwneud â chyfranogiad.
3. Gwella'r adborth i blant a phobl ifanc.
4. Gwella cynhwysiant ar gyfer grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.
5. Creu cyfleoedd i rannu'r hyn a ddysgir a chydweithio.
6. Dathlu a chydnabod llwyddiant cyfranogiad ar draws y ddinas.

Mae'r canfyddiadau hyn bellach yn helpu Caerdydd i wella ei harferion cyfranogol a'i gwasanaethau cynnal i weithio gyda'i gilydd — gan helpu i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael llais go iawn yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

## Angen cymorth?


Mae grŵp o weithwyr proffesiynol yn Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru yn cynnig cyfoeth o brofiad ac arbenigedd ym maes cyfranogiad plant. Os hoffech chi ymuno â'r grŵp, cysylltwch â hawliauplant@llyw.cymru

## Adnoddau

Mae Plant yng Nghymru yn darparu hyfforddiant, adnoddau a chyngor i weithwyr proffesiynol.

# Atodiad A- Rhestr Wirio Datblygu Strategaethau Cyfranogiad

| | Ydych chi wedi gwneud y canlynol? | Do/ Naddo |
|---|---|---|
| Cam 1 - Diffinio | Diffinio beth mae cyfranogiad yn ei olygu i'ch sefydliad | |
| Cam 2 - Mapio | Nodi eich rhanddeiliaid a'ch arferion presennol | |
| Cam 3 - Model | Penderfynu ar fodel cyfranogiad | |
| Cam 4 - Nodau | Pennu eich nodau a'ch amcanion a sut y byddwch yn mesur cynnydd | |
| Cam 5 - Drafft | Drafftio eich strategaeth a phenderfynu ar unrhyw ddogfennau ategol y gallai fod arnoch eu hangen | |
| Cam 6 - Ymgynghori | Gofyn i'ch rhanddeiliaid beth yw eu barn nhw, cyn i chi gwblhau eich strategaeth | |
| Cam 7 - Hyrwyddo | Ystyried sut byddwch chi'n hyrwyddo eich strategaeth ar draws eich sefydliad | |
| Cam 8 - Rhoi ar Waith | Datblygu cynllun i roi eich strategaeth ar waith | |
| Cam 9 - Adolygu | Penderfynu sut a phryd byddwch chi'n adolygu eich strategaeth | |




Fe'i datblygwyd mewn partneriaeth â
Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales